Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bwyd o Bwys: Cymru

## Polisi bwyd wrth galon ein bywydau, ein cymunedau, a'n cenedl.

www.llyw.cymru



**Y Gwir Anrh Eluned Morgan AS**
PRIF WEINIDOG CYMRU



**Huw Irranca-Davies AS**
Y DIRPRWY BRIF WEINIDOG AC YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS NEWID HINSAWDD A MATERION GWLEDIG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhagair

Mae bwyd wrth wraidd ein bywydau, ein cymunedau, a'n cenedl. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar faterion bwyd ar hyd a lled ehangder datblygu a chyflawni polisïau. Boed yn bolisïau newydd blaenllaw neu'n weithgareddau proffil is, rydym yn parhau i hyrwyddo polisïau sy'n gysylltiedig â bwyd ym mhob portffolio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cyflawni ein hymrwymiad i'r Senedd i gyhoeddi a diweddaru dogfen ar gyfer rhanddeiliaid sy'n crynhoi'r ystod eang o bolisïau sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae'n dangos sut mae ein polisïau'n dod at ei gilydd o amgylch deg Amcan Llesiant Llywodraeth Cymru, sydd yn eu tro'n cynyddu ein cyfraniad i saith Nod Llesiant hirdymor Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae materion bwyd yn amrywiol ac yn gymhleth. Mae llwyddiant yn gofyn am bolisi a gweithredu hirdymor a chydgysylltiedig. Rhaid inni gadw'r ffocws hwn wrth inni barhau i fynd i'r afael â heriau systemig sy'n gysylltiedig â chostau byw a thlodi bwyd. Mae angen mynediad at fwyd maethlon ar bob un ohonom ochr yn ochr â'r wybodaeth i wneud dewisiadau iachach. Rhaid i bolisi bwyd weithio gyda chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth sydd wedi'u cydblethu'n ddwfn â buddiannau masnachol mawr sydd wedi'u hintegreiddio i system fwyd y DU - system lle mae masnach ryngwladol yn chwarae rhan ganolog.

Mae gan y system fwyd hon, er ei bod yn effeithlon yn ei chynhyrchu a'i dosbarthu, ddiffygion. O ddirywiad amgylcheddol i bryderon iechyd sy'n deillio o fwyta cynhyrchion diffygiol o ran maeth, ni ellir gwadu bod heriau'n parhau.

Mae heriau parhaus yn y dirwedd fyd-eang a geo-wleidyddol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cryfhau gwydnwch ein cadwyni cyflenwi. Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i ychwanegu cymhlethdod a chost. Mae brys i gyrraedd targedau hinsawdd ac i wrthdroi dirywiad hirdymor bioamrywiaeth. Mae'r realiti hyn yn ein hatgoffa o'r ecosystem gymhleth sy'n cysylltu bwyd â'n ffordd o fyw.

Rydym yn parhau i feithrin Cymru fwy hunangynhaliol, lle rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd, ac rydym yn meithrin elfen leol hirdymor i'r system fwyd a'r cadwyni cyflenwi. Mae gan hyn y potensial i leihau rhywfaint o'r risg i ffactorau allanol a newid hinsawdd.

Ers cyhoeddi Bwyd o Bwys: Cymru gyntaf ym mis Gorffennaf 2024, rydym wedi meithrin momentwm clir ar draws ein system fwyd. Mae ein safonau diogelwch bwyd a'n systemau uniondeb ac olrhain cadwyni cyflenwi wedi arwain at gadwyn gyflenwi fwy integredig.

Mae ein Cynllun Arloesi Strategol, a gyflwynwyd drwy'r Weledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021, wedi cyflawni effaith economaidd o dros £150 miliwn ar draws y gadwyn gyflenwi, gan ategu swyddi a ffyniant ledled Cymru.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy bellach ar waith ers mis Ionawr 2026 – wedi'i lunio drwy ymgysylltu helaeth â ffermwyr i gefnogi cynhyrchu cynaliadwy a chynyddu gwydnwch ein cymunedau gwledig. Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau mynediad at fwyd cynaliadwy, iachach, lleol a chadwyn gyflenwi fwy cysylltiedig.

Mae ein hymrwymiad i Brydau Ysgol am ddim i bob plentyn Ysgol Gynradd wedi'i wreiddio'n gadarn, gyda buddsoddiad parhaus yn sicrhau bod bwyd maethlon yn cyrraedd pob dysgwr cynradd yng Nghymru.

Rhaid i'n ffocws barhau'n ddiysgog i greu Cymru lle mae bwyd yn maethu ein cyrff ac yn cyfoethogi ein cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd. Nid yw'r daith hon yn un yr ydym yn ei theithio ar ein pennau ein hunain. Rydym yn gweithio gyda llawer o bartneriaid – awdurdodau lleol, byrddau iechyd, busnesau, a buddiannau cymunedol lluosog – ac rydym yn gwneud hynny mewn ffyrdd amrywiol. Mae pob polisi, pob menter, a phob penderfyniad wedi'u cysylltu â'i gilydd. Gyda'n gilydd, gadewch i ni barhau i adeiladu Cymru sy'n gynaliadwy, yn iach, ac yn llewyrchus i bawb.



# Cyflwyniad

Mae Bwyd o Bwys: Cymru yn drosolwg byr, syml o bolisïau a gweithgareddau bwyd Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys polisïau sy'n cefnogi'r diwydiant bwyd-amaeth a rheoli adnoddau naturiol yn uniongyrchol, a pholisïau ehangach sy'n ymwneud â bwyd ar draws rhychwant ein gwaith ar gyfer iechyd, addysg, cynaliadwyedd, cymunedau a'r economi.

Diben Bwyd o Bwys: Cymru yw darparu canllaw i randdeiliaid a phartneriaid cymdeithasol fel eu bod yn ymwybodol o'r cyd-destun a'r darlun llawnach o waith Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â bwyd. Gobeithiwn y bydd hyn yn hwyluso trafodaethau ac ymgysylltiadau sy'n ymwneud â bwyd. Mae gan yr holl bolisïau a gweithgareddau a enwir hyperddolenni i wybodaeth bellach, fel y gallwch ymchwilio'n ddyfnach.

Mae Bwyd o Bwys: Cymru yn dangos sut mae polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn cael eu datblygu a'u cyflawni mewn ymateb i agenda strategol Llywodraeth Cymru sy'n cael ei fframio'n bennaf gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (o hyn ymlaen Deddf LlCD) a'r Rhaglen Lywodraethu 2021-26 (y RhL). Gyda'i gilydd, mae polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn ffurfio "agenda strategol" ar gyfer bwyd.

Rydym wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am bolisïau sy'n ymwneud â bwyd a byddwn yn diweddaru Bwyd o Bwys: Cymru i'w gadw'n gyfredol. Rydym yn croesawu eich adborth ynghylch Bwyd o Bwys: Cymru ac unrhyw awgrymiadau am faterion ychwanegol i'w cynnwys. Dylid rhoi'r teitl "Bwyd o Bwys: Cymru" i adborth, a'i gyfeirio at: FoodDivisionalBusiness@gov.wales





# Sut rydyn ni'n gweithio

Fforwm polisi bwyd traws-bortffolio Llywodraeth Cymru sydd wedi datblygu Bwyd o Bwys: Cymru. Mae pob polisi sy'n ymwneud â bwyd yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.

### Hirdymor

Yn yr hirdymor, mae ein polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd a natur, effaith pedwar degawd o ddad-ddiwydiannu a chanlyniadau gadael yr UE. Maent yn tynnu ar ddadansoddiad o ffactorau Cymreig, y DU a byd-eang, ac ystyriaethau lleol, sy'n debygol o effeithio ar Gymru yn y tymor hwy. Mae ein polisïau, ein cynlluniau a'n gweithgareddau cysylltiedig yn pennu camau gweithredu priodol, hirdymor i fynd i'r afael â'r heriau strategol y mae Cymru yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Mae ein polisïau a'n darpariaeth yn cael eu monitro a'u haddasu yng ngoleuni profiad, ac yn addasu wrth i heriau newid, i'w cadw'n berthnasol ac yn effeithiol am y tro ac yn y tymor hir.

### Integreiddio

Mae ein polisïau'n ffurfio agenda strategol integredig. Maent wedi'u cydgynllunio ar draws portffolios Llywodraeth Cymru a gyda rhanddeiliaid, gan roi sylw i sut maent yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae polisïau'n datblygu ar y cyd trwy eu darpariaeth tuag at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, mewn ffyrdd cynaliadwy. Rydym yn gwerthuso'r cynnydd sy'n dylanwadu ar benderfyniadau sy'n cynnal ac yn dyfnhau integreiddio. Y Prif Weinidog a'r Cabinet sy'n berchen ar bolisïau ar y cyd, gan sicrhau bod cyfleoedd i gyflawni mwy'n cael eu nodi'n gynnar ac y gweithredir arnynt.

### Atal

Mae polisïau bwyd wedi'u cynllunio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ac i atal problemau rhag digwydd, mynd i'r afael â phroblemau presennol neu rai sy'n dod i'r amlwg, neu atal materion rhag gwaethygu. Maent yn canolbwyntio ar weithredu'n gyflym i nodi heriau'n gynnar, tra'n cadw'r ffocws a'r cyfeiriad ar gyflawni canlyniadau strategol tymor hwy. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno polisïau drwy feithrin cyd-ddealltwriaeth, chwalu rhwystrau, ymyriadau a gwasanaethau effeithiol, a deall anghenion newidiol pobl yn ystod eu bywydau, ble bynnag a sut bynnag y maent yn byw.

### Cyfrannu

Datblygir polisïau bwyd gyda mewnbwn rhanddeiliaid, gyda phobl Cymru yn cael dweud eu dweud trwy ymgynghoriadau a grwpiau ffocws. Mae cynllunio a chyflawni polisïau da'n cydnabod manteision cynnwys rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gynnar ac yn barhaus. Cynnwys ein partneriaid cymdeithasol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn y polisïau a'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt yw'r ffordd orau o fabwysiadu dull cynaliadwy sy'n cael ei arwain gan anghenion wrth lunio a darparu polisïau.

### Cydweithio

Mae gwneud y gorau o effaith polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn golygu gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflawni ac eraill, gyda'r egwyddor gweithredu hon wedi'i gwreiddio'n gadarn wrth gynllunio a chyflawni polisïau. Rydym yn defnyddio mecanweithiau lluosog i ymgysylltu, cydweithio a llwyddo gydag eraill – gan weithio gyda rhanddeiliaid, rhwydweithiau blaengar a lleisiau amrywiol ledled Cymru. Mae cydweithredu a chydweithio yn hytrach na chystadleuaeth a rhannu'n sail i bolisïau sy'n ymwneud â bwyd, sy'n golygu y gallwn gyflawni'n effeithiol, ac yn gyflym.

# Agenda strategol ar gyfer materion bwyd

Mae polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn cael eu datblygu a'u cyflwyno er mwyn hyrwyddo Deddf LICD a'r RhL, a gyda'i gilydd, maent yn ffurfio agenda strategol ar gyfer bwyd.

Mae'r RhL yn gosod deg amcan llesiant ar gyfer 2021-2026 a ddefnyddiwn i wneud y gorau o'n cyfraniad at saith nod llesiant hirdymor Cymru a osodwyd gan Ddeddf LICD. Mae'r amcanion yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i'w cyflawni gyda'r Datganiad Llesiant sy'n cyd-fynd ag ef yn nodi sut mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd â'n dyletswydd statudol o dan Ddeddf LICD (a dangosir yn **Ffigur 1**).






Ffigur 1

## Sut mae ein hamcanion llesiant strategol yn cyfrannu at nodau llesiant Deddf LICD.

+ Cyfraniad uniongyrchol ● Cyfle am gyfraniad ehangach

| Amcan llesiant | Cymru ffyniannus | Cymru wydn | Cymru iachach | Cymru decach | Cymru o gymunedau cydlynnus | Cymru â diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel | + | ● | + | + | + | ● | ● |
| Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl fregus | + | ● | + | + | + | ● | ● |
| Adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol | + | + | ● | + | + | + | + |
| Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio | + | + | ● | + | ● | + | + |
| Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn | + | + | + | ● | + | ● | + |
| Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn culhau a safonau'n codi | + | ● | ● | + | + | + | + |
| Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau | + | ● | + | + | + | + | + |
| Gwthio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu | + | + | ● | ● | + | + | ● |
| Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt | + | + | + | + | + | + | ● |
| Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd | + | ● | ● | ● | + | + | + |

Mae polisïau sy'n ymwneud â bwyd wedi'u cynnwys yn yr amcanion llesiant. Mae **Ffigur 2** yn dangos y manylion llawnach sy'n dangos y cysylltiadau rhwng y polisïau a'r gweithgareddau manylach hyn a'r amcanion llesiant. Mae **Ffigur 2** yn dangos cyfraniadau uniongyrchol a chyfleoedd ar gyfer cyfraniadau ehangach.

Gyda'i gilydd, mae **Ffigurau 1** a **2** yn dangos cysylltiad uniongyrchol rhwng Deddf LICD a pholisïau. Maent yn dangos sut mae polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn cael eu datblygu a'u darparu o fewn fframwaith deddfwriaethol a ffyrdd o weithio i ffurfio agenda strategol. Mae datblygu a chyflwyno polisïau yn y modd hwn yn golygu eu bod wedi'u halinio'n well ac yn atgyfnerthu ei gilydd sydd, yn ei dro, yn cynyddu eu heffaith i'r eithaf.

Mae cynnydd tuag at nodau llesiant Deddf LICD yn cael ei fesur gan Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol, gyda chyflymder y newid yn cael ei fesur gan Gerrig Milltir Cenedlaethol. Ni chyfeirir yn benodol at fwyd ar hyn o bryd yn y Dangosyddion Cenedlaethol, er bod dangosyddion sy'n berthnasol i fwyta a chynhyrchu bwyd, megis tlodi, ffyrdd iach o fyw a'r amgylchedd naturiol. Byddwn yn ystyried yr achos dros fwyd yn y Dangosyddion Cenedlaethol pan gânt eu hadolygu nesaf. Yn y cyfamser, mae data cyd-destunol sy'n ymwneud â bwyd, er enghraifft ar dlodi bwyd, wedi'i gynnwys yn adroddiadau blynyddol Llesiant Cymru.



Ffigur 2

## Sut mae ein polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

+ Cyfraniad uniongyrchol ● Cyfle am gyfraniad ehangach

| Polisi / gweithgaredd | Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel | Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl fregus | Adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol | Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio | Gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn | Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn culhau a safonau'n codi | Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau | Gwthio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt | Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod* | ● | ● | + | + | ● | + | ● | ● | ● | + |
| Polisi a Chymorth Amaethyddiaeth | | | + | + | + | | | ● | ● | |
| Deddf Amaethyddiaeth Cymru 2023 a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy | | | ● | + | + | | | ● | | |
| Cyd-ddatganiad a Fframwaith Pysgodfeydd y DU | | | ● | ● | ● | | | | ● | |
| Strategaeth Bwyd Cymunedol | ● | ● | + | + | + | + | + | ● | + | ● |
| Partneriaethau Bwyd Lleol | | ● | ● | + | ● | | ● | | ● | |
| Polisi a Chymorth Rhandiroedd | | ● | | ● | ● | | ● | ● | + | |
| Comisiwn Asedau Cymunedol | ● | ● | ● | + | + | + | ● | | + | ● |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | | | ● | + | + | | ● | ● | + | |

*Mae'r polisi hwn yn cynnwys camau gweithredu a/neu dargedau CAMPUS

Ffigur 2 - Sut mae ein polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, parhad

| | Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel | Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl fregus | Adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol | Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio | Gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn | Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn culhau a safonau'n codi | Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau | Gwthio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu | Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt | Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwysau Iach, Cymru Iach* | + | | | | | | ● | | + | |
| Llaeth a Phrydau Ysgol Gynradd am Ddim i Bawb*, Prydau a brecwastau Ysgol Gynradd am Ddim Cymwys | | ● | ● | ● | ● | + | ● | | | |
| Strategaeth Tlodi Plant | ● | + | ● | | | ● | + | | ● | |
| Polisi Cynllunio Cymru | | | + | + | + | | + | + | + | ● |
| Cenhadaeth Economaidd - Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach, a'r Economi Sylfaenol* | ● | ● | + | + | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Datganiad Polisi Caffael Cymru a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Cymru 2023 | ● | ● | + | ● | ● | | ● | ● | ● | |
| Polisïau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr* | | | + | + | + | | + | + | + | ● |
| Economi Gylchol, Polisïau Lleihau ac Atal Gwastraff* | ● | ● | + | + | + | ● | ● | | + | |
| Cyllideb Garbon 2 Cymru Sero Net | ● | | ● | + | + | | | | | |
| Eco-Sgolion Cymru | | | | | ● | + | ● | | + | |
| Y Cwricwlwm i Gymru (dysgu sy'n gysylltiedig â bwyd) | | | | | ● | + | | | | |

*Mae'r polisi hwn yn cynnwys camau gweithredu a/neu dargedau CAMPUS





# Trosolwg o'n prif bolisïau a gweithgareddau

Nod ein polisïau sy'n ymwneud â bwyd yw creu ffyniant, bywydau iachach, a defnydd cyfrifol o adnoddau, sydd yn ei dro'n gwella cydraddoldeb, yn creu gwydnwch ac yn cefnogi cymunedau cydlynus. Rydym eisiau Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang lle mae ein heffaith yn lleihau ôl troed byd-eang. Mae ein polisïau'n rhyngweithio â nifer o randdeiliaid a phartneriaid cymdeithasol. Gall cynlluniau llesiant lleol a gwaith cyrff cyhoeddus yn unigol ac ar y cyd trwy gyfryngau fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ddod â ffocws ychwanegol, cydgysylltu cyfannol a gwerth i faterion bwyd. Gall ein polisïau a'n gweithgareddau gael eu grwpio'n fras, gyda phob grŵp yr un mor bwysig â'i gilydd, gyda chysylltiadau lluosog oddi mewn iddynt a rhyngddynt.

### Lles economaidd

Y Weledigaeth Strategol yw ein ffocws ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod. Mae'n gosod gweledigaeth a chenhadaeth ar gyfer llwyddiant economaidd gan gefnogi busnesau i lwyddo ym marchnadoedd Cymru, y DU ac allforio, a hyrwyddo cynhyrchion brandiau lleol a Chymreig yn gryf. Mae llwyddiant o fudd i fusnesau, pobl a chymdeithas, ac mae'n hyrwyddo Cymru yn gadarnhaol yma, yn y DU a thramor.

Mae'r Weledigaeth Strategol yn amlinellu deg maes gweithredu gan gynnwys adeiladu rhwydweithiau busnes a chadwyni cyflenwi, datblygu cyfleoedd marchnadoedd yng Nghymru a'r DU trwy hyrwyddo marchnadoedd dethol, ac adeiladu brand 'Bwyd a Diod Cymru' gartref ac mewn marchnadoedd allforio.

Mae ein Gweledigaeth Strategol yn cynnwys cael diwydiant sydd ymhlith y cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol y byd, yn cynnig buddion i ddinasyddion, cymunedau, ac yn cyfrannu at ein cyfrifoldeb byd-eang. Nid yw cymorth ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod yn canolbwyntio ar ffyniant economaidd yn unig ond mae'n ceisio buddion eang i ddinasyddion a chymdeithas. Mae cynlluniau grant penodol yn amodol ar fusnesau'n arwyddo "Contract Economaidd" sy'n ymrwymo i roi materion gwerth cymdeithasol fel gwaith teg, a datblygu'r economi werdd (e.e. carbon isel, gwastraff isel, defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol) a chynaliadwyedd economaidd ar waith. Mae sut y cyflawnir hyn yn benodol i gyd-destun y busnes a'r cymorth rydym yn ei gynnig.

Mae Adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth datblygu busnes cynhwysfawr i'r diwydiant bwyd yng Nghymru. Mae hyn yn ymdrin â masnach gartref ac allforion. Mae'r fframwaith o gymorth yn ymdrin â grantiau (Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd), datblygu masnach (Blas Cymru, Rhaglen Datblygu Masnach, Rhaglen Datblygu Allforio a'r Rhaglen Lletygarwch), cymorth arloesi (Arloesi Bwyd Cymru / Y Rhaglen HELIX), cymorth masnachol (Cywain, Uwchraddio, a'r Rhwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod, hyfforddiant Sgiliau Bwyd a Diod Cymru), a chipolwg ar ymddygiad cwsmeriaid a bylchau yn y farchnad drwy ddata perthnasol (Mewnwelediad i'r Farchnad).

Rydym yn cefnogi busnesau bwyd a diod Cymru i ddod yn arweinwyr mewn cynaliadwyedd, trwy raglenni cynhwysfawr, wedi'u teilwra a ariennir yn llawn ar gyfer y sector. Mae ein Rhaglen Cynllun Lleihau Carbon yn gweithio gyda busnesau i leihau allyriadau a gwireddu manteision ariannol a rhyngwladol. Mae ein Hyfforddiant Addasu a Gwydnwch i Newid Hinsawdd yn paratoi busnesau ar gyfer risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Trwy ein Clwstwr Cynaliadwyedd, mae busnesau'n derbyn cymorth i gyflawni achrediad B Corp.

Mae bwyd o fewn cwmpas y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ac Egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru. Gall caffael yn y sector cyhoeddus chwarae rhan hynod bwysig wrth leoleiddio cadwyni cyflenwi bwyd. Gall datblygu cyfleoedd cadwyn gyflenwi lleol i fodloni galw'r sector cyhoeddus a galw arall ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymreig a chadw gwerth yng Nghymru mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy, hirdymor o fewn cymunedau.

Dyma nodau allweddol ein Economi Sylfaenol: datganiad cenhadaeth sy'n nodi'r sectorau y mae Llywodraeth Cymru yn eu blaenoriaethu a'n hamcanion, gan gynnwys cryfhau cadwyni cyflenwi Cymru, hyrwyddo gwaith teg, a chefnogi cydweithio arloesol.

Mae'r dull hwn yn cefnogi'r pedwar maes blaenoriaeth cenedlaethol a nodir yn y Genhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach i hyrwyddo Cymru fwy llewyrchus, gwyrddach a thecach. Mae mapio amrywiol, ymchwil, a phrosiectau peilot (sydd wedi canolbwyntio ar gryfhau cyflenwad llysiau a chig i ysgolion ac ysbytai) wedi helpu i adeiladu gwybodaeth a phrofiad o gadwyni cyflenwi lleol, gan greu cyfleoedd i ychwanegu gwerth a chynyddu cyflenwad ar gyfer anghenion caffael cyhoeddus a lleol.

Rydym wedi sefydlu Cymuned Ymarfer Bwyd newydd ar gyfer prosiectau bwyd a ariennir gan yr Economi Sylfaenol i ddatblygu atebion i heriau ac efelychu llwyddiannau. Mae cyfres newydd o astudiaethau achos bwyd yn arddangos y prosiectau llwyddiannus hyn sy'n cynyddu bwyd Cymru yn y sector cyhoeddus, yn gwella addysg bwyd mewn ysgolion, ac yn mynd i'r afael â thlodi bwyd.

Mae gwerthusiad prosiectau a ariannwyd gan yr Economi Sylfaenol ar gyfer 2023–2025 wedi'i gyhoeddi sy'n dangos y canlyniadau cadarnhaol, y gwersi a ddysgwyd a'r cyfleoedd i ehangu.

Rydym wedi cyd-ddatblygu Prynu Bwyd Addas i'r Dyfodol gyda rhanddeiliaid i annog ffocws ar greu gwerth, a buddion ehangach yn hytrach na'r gost isaf. O fewn y GIG, y Partneriaethau Cydwasanaethau sy'n rheoli darpariaeth bwyd. Mae agweddau ar y Rhaglen Datblygu Masnach yn cael eu datblygu er mwyn ceisio cynyddu'r cyfleoedd i gyflenwi bwyd a diod o Gymru i gwrdd ag anghenion y polisi Prydau Ysgol am ddim i bob plentyn Ysgol Gynradd.



## Cymunedau cryf, gwydn

Mae [Strategaeth Bwyd Cymunedol] Llywodraeth Cymru bellach ar waith, yn darparu fframwaith cenedlaethol i gryfhau systemau bwyd lleol a chefnogi cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol. Mae'r Strategaeth yn dod â chydlyniant a grymuso i fentrau bwyd cymunedol ac yn cydnabod rôl hanfodol Partneriaethau Bwyd Lleol, sydd bellach yn gweithredu ar draws pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae bwyd yn effeithio ar gyfleoedd bywyd. Rydym yn canolbwyntio ar wella diogeledd bwyd unigol, mynd i'r afael â thlodi bwyd ac atal diffyg maeth, yn ogystal ag atal gwastraff bwyd. Mae cefnogaeth i sefydliadau bwyd cymunedol yn cynnig achubiaeth rhag tlodi bwyd. Rydym wedi cryfhau gweithredu cydlynus lleol ac yn parhau i gefnogi Synnwyr Bwyd Cymru a Partneriaethau Bwyd Lleol gyda chydlynwyr bwyd lleol a all ysgogi a chysylltu rhanddeiliaid allweddol a phrosiectau gwaelodol i yrru atebion cynaliadwy sy'n ymateb i anghenion lleol mewn ffordd strategol, gydlynol.

Yn ehangach, mae Ystadau Cymru wedi sefydlu'r Comisiwn Asedau Cymunedol er mwyn ysgogi meddwl arloesol ynghylch perchnogaeth gymunedol ar asedau tir ac adeiladau, gan gynnwys dulliau o ymdrin â stiwardiaeth tir gynaliadwy.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfateb i anghenion cymunedau lleol, gan bwysleisio cynaliadwyedd, stiwardiaeth amgylcheddol, a gwerthoedd diwylliannol. Trwy integreiddio bwyd, cynllunio a defnyddio asedau, ein nod yw meithrin cymunedau cynaliadwy, deinamig. Rydym yn cefnogi tyfu cymunedol a rhandiroedd trwy grantiau, canllawiau a'r Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol. Mae cymorth ar gyfer tyfu ar raddfa fach mewn cymunedau hefyd yn rhan o elfennau o gynlluniau a weithredir o dan ddull Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.



## Bywydau iach

Ein nod yw annog gwell diet a lleihau salwch sy'n gysylltiedig â bwyd drwy symud tuag at y Canllaw bwyta'n dda. Mae Pwysau Iach Byw'n Iach Cymru yn strategaeth hirdymor gynhwysfawr i leihau ac atal gordewdra. Mae hyn yn cynnwys creu amgylchedd lle mae bwyd iach yn fwy gweladwy, ar gael ac yn fforddiadwy. Mae hefyd yn cynnwys amcanion fel rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i bobl fwyta diet iach, gan gynnwys gwasanaethau rheoli pwysau sy'n targedu'r rhai sydd mewn perygl o ddatblygu clefydau cronig sy'n gysylltiedig â gordewdra. Drwy integreiddio polisïau economaidd ac iechyd, nod Arloesi Bwyd Cymru yw cefnogi busnesau i ddatblygu ac ailfformiwleiddio cynhyrchion iachach.

Mae'r Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) 2025 wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd, gan gyflwyno cyfyngiadau newydd ar hyrwyddo a lleoli bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr. Mae'r mesurau hyn yn cyfyngu ar gynigion prynu lluosog, ail-lenwi diodydd llawn siwgr am ddim, ac arddangos cynhyrchion o'r fath mewn lleoliadau allweddol mewn siopau ac ar-lein i helpu lleihau prynu mympwyol a gwella iechyd y cyhoedd. Darparwyd cyfnod pontio i fusnesau cyn i'r rheoliadau ddod i rym ym mis Mawrth 2026. Caiff hyn ei ategu gan ganllawiau gweithredu cynhwysfawr.

Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a'r canllawiau statudol cysylltiedig yn nodi'r hyn y gall a na all awdurdodau lleol ac ysgolion ei ddarparu fel rhan o'r bwyd a gynigir mewn ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir. Mae Rheoliadau Diwygiedig (Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025)) wedi'u pasio gan y Senedd ac maent yn dod i rym ar 31 Hydref eleni. Byddant yn cefnogi mynediad at ddewisiadau iachach a chytbwys i ddysgwyr, gan sicrhau aliniad agosach â'r canllawiau maeth diweddaraf.

Cwblhawyd ymestyn y broses o gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd ym mis Medi 2024. Wrth gyflawni a gwella gweithrediad yr ymrwymiad hwn, rydym yn dysgu gwersi gwerthfawr a fydd yn llywio unrhyw newidiadau yn y dyfodol i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Yn ategu'r ffocws hwn yn yr ysgol, mae'r rhaglen Cychwyn Iach yn helpu ein teuluoedd mwyaf bregus, menywod beichiog cymwys a phlant o dan 4 oed i brynu bwydydd iachach ac yn darparu fitaminau am ddim. Mae'r Cynllun Llaeth Meithrin yn darparu 189ml o laeth y dydd i blant dan bump oed sy'n mynychu gofal plant.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygu'r Safonau Maeth a Hydradu Cenedlaethol mewn lleoliadau nyrsio, sy'n cynnwys safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan wedi'u diweddaru ar gyfer darparu bwyd a hylif i gleifion mewnol ysbytai. Mae hyn yn darparu canllawiau cynhwysfawr, wedi'u moderneiddio er mwyn cwrdd ag anghenion maethol pob claf ysbyty ledled Cymru, gan ddisodli Safonau 2011 a mynd i'r afael â gofynion dietegol, diwylliannol, diogelwch, demograffig a therapiwtig ar draws pob lleoliad ysbyty.

Mae gwybodaeth am faeth a dewisiadau bwyd da'n cael ei rhannu trwy amrywiol fentrau lleol a chenedlaethol. Mae'r polisïau hyn ar y cyd yn ffurfio rhan o ystod o ymrwymiadau trawslywodraethol i atal a mynd i'r afael ag effaith tlodi plant sydd wedi'u nodi yn ein Strategaeth Tlodi Plant a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gynnydd yn erbyn y strategaeth yn Adroddiad Cynnydd Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2025.

### Dysgu

O fewn Cwricwlwm Cymru, cefnogir dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i fyw bywydau iach a gweithgar a gwneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles. Mae hyn yn cynnwys dysgu am ymddygiadau sy'n hybu iechyd fel maeth da, diet cytbwys a chynllunio, paratoi a choginio prydau maethlon. Anogir dysgwyr hefyd i ystyried safbwyntiau ehangach, gan gynnwys dod o hyd i fwydydd lleol, dylanwadau amgylcheddol ar ddewisiadau bwyd, a materion sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd a chynaliadwyedd.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddwy raglen addysg amgylcheddol, Eco-Sgolion Cymru a Maint Cymru, y ddwy yn ysbrydoli ac yn grymuso pobl ifanc i ysgogi newid amgylcheddol cadarnhaol. Mae'r mentrau hyn mewn ysgolion yn aml yn cynnwys addysgu plant a phobl ifanc ynghylch o ble mae ein bwyd yn dod a rhoi cyfleoedd iddynt dyfu eu bwyd eu hunain mewn ffordd gynaliadwy. Y tu allan i'r ystafell ddosbarth, mae disgyblion yn cael profiad gwell o fwyd a diet diolch i'r polisi Prydau Ysgol am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd a bydd safonau rheoleiddio gwell yn arwain at arferion sy'n newid bywydau.

Yn y diwydiant bwyd, mae hyfforddiant cynhwysfawr i weithwyr ar gael trwy Sgiliau Bwyd a Diod Cymru. Yn ogystal, mae Arloesi Bwyd Cymru trwy y Rhaglen HELIX yn trosglwyddo gwybodaeth a chynnig hyfforddiant gyda chymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau technegol a chymwysterau addysgol, gyda dros fil o weithwyr yn elwa arnynt y llynedd. Ym myd amaeth, mae Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor, trosglwyddo gwybodaeth a chymorth uwchsgilio ac mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn rhoi cyngor ar amrywiaeth o grantiau a materion gweinyddol.

### Tir a môr

Rydym yn datblygu diwygiadau rheoli tir mawr drwy basio Deddf Amaeth (Cymru) 2023 a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ategol yn eang. Gyda'i gilydd bydd rhain yn creu ac yn darparu cymorth ar gyfer amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, gan gynnwys cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, lleihau ôl troed carbon a chyflawni ar gyfer byd natur. Eu nod yw lleihau effaith amgylcheddol cynhyrchu bwyd a chefnogi ffyrdd o gynnal, gwella ac adfer yr amgylchedd naturiol ar y cyd â chynhyrchu bwyd. Rydym yn darparu cymorth cyfalaf ar gyfer busnesau fferm drwy ystod o gynlluniau cymorth gan gynnwys Cynllun Grantiau Bach Effeithlonrwydd, a fydd yn parhau drwy gydol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae datblygiad y sector garddwriaethol a phrosesu ar y fferm yn cael eu cefnogi drwy'r cynlluniau Dechrau Busnes Garddwriaeth a'r Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol a Garddwriaethol. Ar gyfer y sector pysgota, rydym yn bartneriaid i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd a Fframwaith Pysgodfeydd sy'n cynnwys cynhyrchu a marchnata cynhyrchion bwyd môr a'r gallu i'w holrhain.

### Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

Gyda'r ffocws cynaliadwyedd cynyddol ar ein cefnogaeth i amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu bwyd, pysgota a busnesau prosesu, a chefnogi gweithgareddau bwyd lleol, cymunedol trwy ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol, mae ein polisïau ar y cyd yn datblygu gwydnwch a lliniaru newid hinsawdd i mewn i'r system fwyd, yn ogystal â mynd i'r afael â'n hôl troed amgylcheddol ein hunain.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn cydnabod natur, tir, dŵr ac aer fel ein hadnoddau eithaf ac mae'n dilyn dull integredig o reoli ein hadnoddau naturiol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae'n llywio'r gwaith o gynllunio llwybrau allyriadau sectorau ar draws pob sector, gan gynnwys gweithgynhyrchu a diwydiannau'r tir, i leihau ôl troed carbon a gwastraff. Rhaid i'n polisïau wneud cynnydd brys i gyrraedd targedau newid hinsawdd i addasu a lliniaru, ac i adfer bioamrywiaeth.



Roedd Sero Net Cymru: Cyllideb Garbon 2 yn cynnwys y polisïau a'r cynigion ar gyfer cyrraedd y targed statudol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr rhwng 2021 a 2025 (cyfartaledd o 37% islaw'r llinell sylfaen). Byddwn yn cyhoeddi datganiad terfynol ar Gyllideb Garbon 2 cyn diwedd y flwyddyn nesaf.

Rydym yn canolbwyntio ar leihau ac atal gwastraff ledled y system fwyd. Mae ein Strategaeth Mwy nag Ailgylchu yn gweithio i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti ac mae'n ymrwymo i ddileu pob gwastraff bwyd y gellir ei osgoi drwy weithio gyda chynhyrchwyr a phroseswyr bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, i gyfyngu ar wastraff bwyd ym mhob lleoliad. Mae'r strategaeth yn gosod targed i leihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi 60% erbyn 2030. Gan gydnabod ein lle o fewn system fwyd y DU gyfan, rydym yn bartner gweithredol i Ymrwymiad Bwyd a Diod y DU sy'n gytundeb gwirfoddol ar y cyd ar draws cadwyn fwyd y DU gyfan i sicrhau gostyngiadau mewn gwastraff bwyd, allyriadau nwyon tŷ gwydr a straen dŵr o'r fferm i'r fforc.

Rydym hefyd yn canolbwyntio ar leihau gwastraff deunydd pacio ac wedi cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer deunydd pacio sy'n golygu y bydd yn rhaid i fusnesau sy'n cyflenwi ac yn defnyddio deunydd pacio dalu am ei reoli pan fydd yn dod yn wastraff. Daeth Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle i rym ym mis Ebrill 2024, ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd annomestig wahanu gwastraff bwyd ar gyfer ailgylchu - rydym yn codi ymwybyddiaeth ac wedi cyhoeddi canllawiau a Chod Ymarfer. Mae cymorth ar gael gan Busnes Cymru a WRAP Cymru.

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) Cymru 2023 wedi gwahardd defnyddio cynhyrchion gwasanaeth bwyd untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel neu sy'n anodd eu hailgylchu. Mae Gweithredu ar Hinsawdd Cymru yn rhoi cyngor i ddinasyddion ar sut i wneud dewisiadau bwyd cadarnhaol.

Ers 2015 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ariannu FareShare Cymru er mwyn ailddosbarthu bwyd dros ben o fusnesau, gan ei atal rhag dod yn wastraff a sicrhau ei fod yn cyrraedd pobl mewn angen. Rydym yn ariannu'r ymgyrch Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff sy'n rhoi cyngor cyhoeddus i atal bwyd bwytadwy rhag cael ei wastraffu. Nod ymgyrch Bydd Wych yw addysgu pobl i ddefnyddio'r bwyd bwytadwy maen nhw'n ei brynu ac ailgylchu unrhyw fwyd anfwytadwy yn y casgliad gwastraff bwyd cyffredinol.

### Camau nesaf

Mae **Bwyd o Bwys: Cymru** yn drosolwg byr o'n polisïau cyfredol ac arfaethedig yn ymwneud â bwyd. Ei nod yw llywio a bod yn arf ar gyfer ein gwaith gyda rhanddeiliaid. Mae'n amlinellu sut rydym yn gweithio, sut y caiff polisïau eu datblygu a'u gweithredu. Gwelir llwyddiant mewn polisïau sy'n atgyfnerthu ei gilydd mewn ffyrdd cyflenwol, a sicrhawn drwy weithio'n ofalus ar draws portffolios a chydgyfrifoldeb fel llywodraeth. Rydym yn ymrwymo i ddiweddaru Bwyd o Bwys: Cymru yn achlysurol ac i adeiladu ar ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ag eraill, edrychwn ymlaen at eich sylwadau a'ch awgrymiadau



www.llyw.cymru